

Cais am gyfarwyddyd dan adran 88(1) Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Ffurflen A62)

Nodiadau ar lenwi'r ffurflen

Pwysig

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i'r Uchel Lys am gyfarwyddyd dan adran 88(1) Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, yn ddarostyngedig i'r amodau y mae'r rhaid eu cwrdd, yn achos mabwysiad dan y Cytundeb, fod adran 67(3) ddim yn berthnasol, neu nad yw'n berthnasol i'r graddau a nodir yn y cyfarwyddyd penodol.

Os ydych chi'n gosod ynghlwm â'ch cais unrhyw orchymyn gan yr Uchel Lys neu lys sirol, rhaid iddo fod yn gopi wedi'i selio (hynny yw, copi a stampiwyd gyda sêl y llys). Rhaid i orchymyn a gyflwynwyd gan unrhyw awdurdod arall gael ei ddilysu'n iawn gan yr awdurdod hwnnw. Os oes gennych unrhyw ansicrwydd ynghylch beth sydd ei angen, cysylltwch â'r llys am gymorth.

Ewch a'r ffurflen gais wedi'i chwblhau, ynghyd â **thri chopi** ohoni i'r Uchel lys, neu ei hanfon yno, ynghyd â ffi'r llys ac unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu hatodi i gefnogi'ch cais. Os nad ydych yn sicr o'r ffi sy'n daladwy i'r llys am eich cais, neu y credwch y gallech fod wedi'ch eithrio rhag talu'r holl ffi neu gyfran ohoni, dylech gysylltu â'r llys am wybodaeth.

Nodiadau ar y ffurflen gais

Nodyn 1

Caiff y personau canlynol wneud y cais hwn:

- Y plentyn a fabwysiadwyd;
- Y rhai a'i mabwysiodd;
- Unrhyw riant;
- Unrhyw berson arall.

Application for a direction under section 88(1) of the Adoption and Children Act 2002 (Form A62)

Notes on completing the form

Important

This application form may be used to make an application to the High Court for a direction under section 88(1) of the Adoption and Children Act 2002 that, subject to the conditions which must be met, in the case of a Convention adoption section 67(3) does not apply, or does not apply to the extent specified in the direction.

If you are attaching any order of the High Court or a county court to your application, it must be a sealed copy of the order (that is, a copy that has been stamped with the seal of the court). An order issued by any other authority must be properly authenticated by that authority. If you are in any doubt about what is needed, please contact the court for assistance.

Take or send the completed application form, **and three copies**, to the High Court, together with the court fee and any documents you are attaching in support of your application. If you are not sure about the court fee payable for your application, or you think that you may be exempt from paying all or part of the fee, you should contact the court for information.

Notes on the application form

Note 1

The following persons may make this application:

- The adopted child;
- The adopters;
- Any parent;
- Any other person.

Nodyn 2

Os nad ydych eisiau i'ch cyfeiriad preifat a'ch rhif ffôn gael eu datgelu i unrhyw barti arall, peidiwch â nodi'r manylion hynny ar y ffurflen gais hon. Yn hytrach, dylech nodi'r manylion ar Ffurflen A65 y mae'n rhaid i chi ei ffeilio yn y llys gyda'ch cais. Fydd y wybodaeth ddim yn cael ei datgelu i unrhyw berson arall wedyn, dim ond drwy orchymyn y llys.

Nodyn 3

Nodwch eich perthynas â'r plentyn er enghraifft, y sawl sy'n mabwysiadu, rhiant. Os mai chi yw'r plentyn nodwch 'plentyn dan sylw'. Os nad oes gennych berthynas â'r plentyn nodwch 'dim'.

Nodyn 4

Rhowch enw'r plentyn fel y mae'n ymddangos ar y mabwysiad dan y Cytundeb os gwelwch yn dda. **Rhaid i chi roi copi o'r gorchymyn ynghlwm â'ch cais.**

Nodyn 5

Gallai'r personau a'r sefydliadau canlynol fod yn atebwyr i'r cais hwn:

- Y rhai sy'n mabwysiadu'r plentyn;
- Rhieni'r plentyn
- Yr asiantaeth fabwysiadu;
- Yr awdurdod lleol y rhoddwyd hysbysiad iddo dan adran 44 (hysbysiad o fwriad i wneud cais am orchymyn cyfrifoldeb rhiant cyn mabwysiadu dramor).

Llenwch eu manylion cyn llawned â phosibl.

Bydd yr Atwrnai Cyffredinol hefyd yn atebydd yn yr achos hwn. Mae gan y llys gyfeiriad eisoes ar gyfer cyflwyno dogfennau i'r Atwrnai Cyffredinol

Nodyn 6

Ni ddylech lenwi'r rhan hon ond os rhoddwyd y plentyn i'w fabwysiadu gan asiantaeth fabwysiadu. Nid yw hyn yn debygol o fod yn berthnasol ond pan fo'r Deyrnas Unedig yn Dardd-wlad yn yr achos mabwysiadu o dan y Cytundeb.

Nodyn 7

Yn Rhan 4 y cais nodwch ba orchymyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud a llenwch y manylion ychwanegol perthnasol sydd eu hangen, er enghraifft, rhowch fanylion i ba raddau na ddylai adran 67(3) Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 fod yn berthnasol.

Note 2

If you do not want your private address and telephone number to be disclosed to any other party, do not enter those details on this application form. Instead you should enter the details on Form A65, which you must file at the court with your application. The information will not then be disclosed to any other person, except by order of the court.

Note 3

Enter your relationship to the child, for example, adopter, parent. If you are the child enter 'subject child'. If you do not have a relationship to the child enter 'none'.

Note 4

Please give the name of the child as it appears on the Convention adoption. **You must attach a copy of the order to your application.**

Note 5

The following people and institutions may be respondents to this application:

- The child's adopters;
- The child's parents
- The adoption agency;
- The local authority to whom notice under section 44 (notice of intention to apply for an order for parental responsibility prior to adoption abroad) has been given.

Please fill in their details as fully as possible.

The Attorney General will also be a respondent to these proceedings. The court already has the address for service on the Attorney General.

Note 6

Only complete this part if the child was placed by an adoption agency. This is only likely to be relevant where the United Kingdom was the State of origin in the Convention adoption proceedings.

Note 7

In Part 4 of the application please indicate the order you are asking the court to make and complete the relevant additional details required, for example, please insert the details of the extent to which section 67(3) of the Adoption and Children Act 2002 should not apply.

Nodyn 8

Nodwch y rhesymau dros eich cais os gwelwch yn dda. Os nad oes digon o le ar gyfer eich ateb, ewch ymlaen ar ddalen ar wahân os gwelwch yn dda. Rhowch enw'r plentyn, rhif y Rhan a chyfeirnod y paragraff ar ben y ddalen barhau.

Os ydych wedi gwrthod rhoi'ch cyfeiriad neu rif ffôn ar y ffurflen gais, dylech sicrhau nad yw'r rhesymau a roddwch dros eich cais yn cynnwys unrhyw wybodaeth allai arwain at ddatgelu'r manylion hynny.

Nodyn 9

Nodwch y dyddiad pryd yr awdurdodwyd y mabwysiad dan y Cytundeb, a chan bwy (e.e. pa Lys neu Awdurdod), ynghyd â manylion y rhai oedd yn mabwysiadu a'r plentyn a fabwysiadwyd.

Nodyn 10

Mabwysiad llawn yw mabwysiad yn dilyn yr hwn yr ymdrinnir â'r plentyn dan y gyfraith fel plentyn y person/personau a'i mabwysiadodd, ac nid unrhyw berson arall.

Nodyn 11

Mae'r Cytundeb yn golygu'r Cytundeb ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu mewn perthynas â Mabwysiadu Rhyngwladol a gadarnhawyd yn yr Hâg ar 29 Mai 1993.

Cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd os byddwch yn mynychu'r llys

Nodyn 12

Os byddwch chi/un ohonoch angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd neu nam, nodwch eich gofynion yn llawn os gwelwch yn dda. Bydd staff y llys angen gwybod, er enghraifft, a ydych eisiau i ddogfennau gael eu darparu mewn fformat gwahanol, megis Braille neu brint bras. Byddant hefyd angen gwybod am unrhyw ofynion penodol allai fod gennych ar ddiwrnod y gwrandawriad, megis mynediad i gadair olwyn, system dolen sain, neu ddehonglydd iaith arwyddion. Bydd staff y llys yn cysylltu â chi ynghylch eich gofynion. Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu'r llys o'ch anghenion. Oni wnewch hynny, efallai y bydd yn rhaid gohirio'r gwrandawriad o ganlyniad.

Note 8

Please set out the reasons for your application. If there is not enough room for your reply, please continue on a separate sheet. Put the child's name, the number of the Part and the paragraph reference at the head of the continuation sheet.

If you have withheld your address or telephone number on the application form, you should make sure that the reasons you give for your application do not include any information that could lead to those details being disclosed.

Note 9

Enter the date on which the Convention adoption was authorised and by whom (e.g. which Court or Authority), together with the details of the adopters and the child adopted.

Note 10

A full adoption is an adoption following which the child is to be treated in law as not being the child of any person other than the adopters or adopter.

Note 11

The Convention means the Convention on Protection of Children and Co-operation in respect of Intercountry Adoption, concluded at the Hague on 29th May 1993.

Special assistance or facilities for disability if you attend court

Note 12

If you/either of you need special assistance or special facilities for a disability or impairment, please set out your requirements in full. The court staff will need to know, for example, whether you want documents to be supplied in an alternative format, such as Braille or large print. They will also need to know about any specific requirements you may have on the day of the hearing, such as wheelchair access, a hearing loop, or a sign language interpreter. The court staff will get in touch with you about your requirements. It is important that you make the court aware of all your needs. If you do not, the result may be that the hearing has to be adjourned.